

## **Ailagor ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2020**

### **Cwestiynau cyffredin**

#### **Cwricwlwm, dysgu, asesiadau, data a chymwysterau**

##### **Cefndir**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol ac o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru a chyrrff statudol eraill o ran trefniadau ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen.

Mae'n bwysig nodi bod y canllawiau hyn yn gywir adeg eu hysgrifennu. Wrth i wybodaeth newydd ddod i law, fodd bynnag, bydd angen diweddarau'r ddogfen hon o bryd i'w gilydd i gyd-fynd â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

##### **Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi newid?**

Ar 24 Mehefin 2020, penderfynwyd atal y gofynion sylfaenol ar gyfer y cwricwlwm yng Nghymru a'r trefniadau asesu mewn ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir, a hynny fel rhan o Ddeddf y Coronafeirws 2020. Diben hyn oedd rhoi'r cyfle a'r hyblygrwydd angenrheidiol iddynt ymateb i bandemig COVID-19.

Bydd angen i ysgolion a lleoliadau addasu eu dulliau dysgu yn ystod tymor yr hydref i ymdopi ag amrywiaeth o broblemau a byddwn yn ystyried hyn wrth wneud ein holl benderfyniadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r disgwyliadau o ran deddfwriaeth maes o law a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a budd dysgwyr yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

##### **Pa ganllawiau a gawsom gan Lywodraeth Cymru?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi 'canllawiau i ddysgwyr'. Diben y canllawiau hyn yw cyflwyno set o egwyddorion dysgu i ysgolion a'r partneriaid sy'n eu cynorthwyo, ni waeth sut y maent wedi ymateb hyd yma i COVID-19. Mae'r canllawiau i'w gweld yma:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

##### **A fydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddysgu ac addysgu?**

Bydd.

Bydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddysgu ac addysgu yn ystod blwyddyn ysgol 2020-2021. Bydd ysgolion a lleoliadau'n parhau i addasu er mwyn darparu addysg yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol os bydd angen. Mae'n bosibl iawn y bydd y cydbwysedd rhwng dysgu yn yr ysgolion a'r lleoliadau, a'r amser a gaiff ei dreulio'n dysgu mewn mannau eraill, yn newid ar adegau penodol er mwyn ymateb i'r pandemig.

### **Pwy fydd yn cynorthwyo ysgolion yn ystod y cyfnod hwn?**

Bydd yr awdurdod lleol (ALI) a Chonsortium Canolbarth y De (CCD) yn parhau i gynorthwyo ysgolion a'u harweinwyr.

### **Sut bydd ysgolion yn dysgu ac yn addysgu ym mis Medi 2020?**

Bydd angen i ysgolion addasu eu cynlluniau cwricwlwm a'u dulliau dysgu a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid. Wrth i ysgolion a lleoliadau ddatblygu systemau i ganiatáu iddynt gynnig addysg yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, byddant yn gallu manteisio ar ganllawiau dysgu cyfunol sydd wedi'u datblygu gan ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn.

### **A yw'r pandemig wedi effeithio ar addysg?**

Do.

Gwyddom fod y pandemig wedi effeithio i ryw raddau ar y rhan fwyaf o'r maes addysg dros y misoedd diwethaf ac mai grwpiau agored i niwed a grwpiau difreintiedig sydd wedi dioddef fwyaf. Mae'r pandemig wedi effeithio'n benodol hefyd ar ddysgwyr a fydd yn sefyll arholiadau ffurfiol yn 2021 (hy disgyblion sy'n dechrau ym Mlynnyddoedd 11, 12 ac 13).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd £29 miliwn ar gael i recriwtio, adfer a chodi safonau, gan ddod ag athrawon i'r ysgolion i roi cymorth penodol i'r disgyblion hynny sy'n wynebu'r problemau mwyaf i'w galluogi i gyrraedd eu potensial. Bydd yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i'w cynorthwyo yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ddiweddarach yn yr haf, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ategol ar gynorthwyo dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed.

### **Sut y bydd disgyblion yn dysgu?**

Bydd angen i ysgolion a lleoliadau newid eu dulliau dysgu er mwyn addasu i amgylchiadau wrth iddynt newid yn ystod yr ymateb i COVID-19. Dylai ysgolion felly ddatblygu dulliau dysgu sy'n ddigon hyblyg i addasu i sefyllfaoedd gwahanol lle mae'r

cydbwysedd rhwng addysg yn yr ysgol ac addysg yn y cartref, neu fannau eraill, yn amrywio. Yng nghyd-destun yr ansicrwydd hwn, mae angen pennu egwyddorion cyffredinol y gellir, ac y dylid, eu cymhwysu mewn unrhyw sefyllfa.

Y nod yw gwneud yn siŵr bod dulliau dysgu clir a phenodol, sy'n dilyn trywydd pendant, yn cael eu defnyddio yn yr ysgol/lleoliad ac yn y cartref, neu unrhyw fan arall, a bod yr ysgolion yn ddigon hyblyg i addasu i amgylchiadau gwahanol. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau dysgu cydlynol, cyson a chydgyssylltiedig yn hytrach na'u bod yn wynebu gofynion anghyson, ailadrodd diangen neu ddiffyg cysylltiad rhwng y dysgu mewn amgylchiadau gwahanol.

Bydd anghenion rhai dysgwyr penodol, gan gynnwys ein dysgwyr ieuengaf a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau dysgu, yn cael eu hystyried ymhellach. Bydd angen cymorth ychwanegol hefyd ar ddysgwyr sy'n paratoi i sefyll arholiadau, ac mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld isod.

### **Beth fydd y blaenoriaethau o fis Medi 2020 ymlaen?**

Wrth ystyried y dulliau dysgu y byddant yn eu defnyddio yn yr hydref, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y chwe blaenoriaeth a ganlyn:

#### **Iechyd a lles**

Dylai'r dysgu hybu lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y dysgwr a hefyd gydnabod pwysigrwydd dysgu a chwarae yn yr awyr agored.

#### **Diben**

Dylai'r holl ddysgu fod â diben clir, a dylai ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr yn awr ac yn y dyfodol.

#### **Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol**

Dylai'r dysgwyr gael cyfle i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn ym mhob agwedd ar y cwricwlwm.

#### **Addysg eang a chytbwys**

Dylid cynnig cyfleoedd dysgu fel rhan o gwricwlwm eang sy'n cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth dda a gwybodaeth a sgiliau amrywiol.

#### **Cynnydd ac asesiadau**

Dylai dysgwyr ddangos cynnydd ystyrllon drwy gydol y cyfnod hwn. Dylid cynllunio'r dysgu i sicrhau ei fod yn dyfnhau ac yn mynd yn fwy soffistigedig dros gyfnod. Caiff ysgolion eu hannog i ddefnyddio asesiadau i helpu dysgwyr i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

### **Gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr a dysgwyr**

Dylai ysgolion ddatblygu dealltwriaeth ac iaith gyffredin rhwng rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Gall hyn fod yn sail i'r dysgu a helpu i greu profiadau dysgu da.

### **Beth ddylem ni ddisgwyl i ysgolion ei ddysgu a'i asesu? A fydd hyn y newid?**

Mae'r naratif isod yn esbonio disgwyliaid Llywodraeth Cymru.

### **Cynnydd**

Dros y cyfnod y bydd COVID-19 yn tarfu ar addysg, rydym yn disgwyl i'r holl ddysgwyr barhau i wneud cynnydd ystyrllon. Mae hyn yn hollbwysig i addysg tymor hir dysgwyr a'u lles gydol oes. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn meithrin dealltwriaeth fwyfwy soffistigedig o gysyniadau a byddant yn cymhwyso'u gwytodaeth, eu sgiliau a'r hyn y maent yn ei ddysgu i wneud hyn.

Mae'n bwysig gweld cynnydd yn y cyd-destun hwn: dyfnhau dealltwriaeth a chymhwyso gwytodaeth a sgiliau, yn hytrach na dim ond dysgu am ragor o bynciau neu gynnwys gwahanol.

Ni fydd pob dysgwr yn dangos yr un cynnydd yr un pryd a dylid cynnig yr her a'r gefnogaeth briodol i bob unigolyn fedru symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg, gan ystyried unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu.

### **Asesu**

Diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i ddatblygu ar gyflymder priodol, gan sicrhau bod y dysgwr yn cael ei herio a'i gefnogi'n briodol.

Wrth i ddysgwyr barhau i ddysgu mewn lleoliadau gwahanol, ni ddylid asesu drwy 'gynnal profion' mewn ymdrech i 'ddal i fyny' a rhoi sylw i bopeth y byddent wedi'i wneud cyn COVID19.

Dylai helpu i ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, sut mae'n dysgu a'r meysydd i'w datblygu – er mwyn ei alluogi i baratoi i ddysgu a chytuno ar y camau nesaf.

### **Beth yw 'asesu dysgu'?**

Wrth asesu dysgu, bydd athrawon yn adolygu cynnydd y dysgwyr i benderfynu lle mae arni ar hyn o bryd. Yn y cyfnod sylfaen, bydd athrawon yn cyfeirio at 'ddeilliannau', ond yng nghyfnod 2 a 3 mae'n bosibl y byddant yn cyfeirio at 'lefelau diwedd blwyddyn'

### **Beth yw asesu ar gyfer dysgu?**

Pan fydd athrawon yn asesu ar gyfer dysgu, byddant yn gwneud penderfyniadau diagnostig (wrth weithio ochr yn ochr â disgybl yn aml) ac yn defnyddio'r rhain i gynllunio'r camau nesaf yn eu haddysg.

### **A oes yna ganllawiau penodol ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd?**

Oes.

Mae'r canllawiau hyn i'w gael yn y 'canllawiau i ddysgwyr' gan Lywodraeth Cymru (mae cyngor penodol i'w weld ar dudalen 15 ac 16).

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-dymor-yr-hydref.pdf>

### **Beth fydd yn digwydd i TGAU a Safon Uwch y flwyddyn nesaf?**

Bydd cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' Llywodraeth Cymru yn ceisio codi hyder a gwella gwybodaeth a sgiliau'r dysgwyr hynny a fydd yn sefyll arholiadau ffurfiol yn 2021. Y bwriad yw cynorthwyo dysgwyr a gwneud yn siŵr na fyddan nhw dan anfantais.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio casglu gwybodaeth a rhoi adborth ar gynnydd y garfan o ddysgwyr a fydd yn cael y cymorth ychwanegol hwn a bydd yn rhannu'r wybodaeth â Cymwysterau Cymru i'w helpu yn eu trafodaethau yn 2021.

Mae Cymwysterau Cymru, sy'n cydweithio â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru, hefyd yn ystyried sut y gellid newid arholiadau 2021 i roi cyfle digonol i ddysgwyr ddangos eu gallu gan gydnabod bod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar ddysgu ac addysgu.

Bydd angen sicrhau bod y cymwysterau hyn yn dal yn ddibynadwy ac yn ddilys ar ôl y newidiadau hyn. At y diben hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na chaiff data dyfarniadau 2020-21, na 2019-2020, eu defnyddio i gofnodi deilliannau cyrhaeddiad ysgolion, awdurdodau lleol na chonsortia rhanbarthol, ac na chânt eu defnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ganlyniadau dysgwyr.

Dylai ysgolion ystyried hyn, a'r blaenoriaethau dysgu ehangach a nodir yn y canllawiau hyn, wrth gynllunio'u dulliau dysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Dylai hyn gynnwys ystyried nifer yr arholiadau y mae disgwyl i ddysgwyr eu sefyll, i ganiatáu iddynt ddangos eu potensial llawn ac i wneud y gorau y gallant.

Mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi bod yn diweddarau eu gwefannau'n gyson gan gynnwys eu cyhoeddiadau a'u penderfyniadau diweddaraf, gan gynnwys y bwriad i gynnal yr arholiadau arferol ym mis Tachwedd, a hynny'n bennaf i gynorthwyo dysgwyr sydd am ailsefyll arholiad i geisio gwella ar y radd a gawsant yn yr haf.

### **A fydd yn rhaid i ysgolion osod targedau academaidd a thargedau presenoldeb ar gyfer 2020-2021?**

Na fydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi atal y gofyniad hwn.

### **A fydd data perfformiad ysgolion ar gael y flwyddyn nesaf?**

Na fydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi atal y gofyniad hwn.

### **A fydd y broses o gategoreiddio ysgolion yn mynd rhagddi'r flwyddyn nesaf?**

Na fydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi atal y gofyniad hwn, er ei bod wedi dweud yn glir ei bod yn dal i ddisgwyl i ysgolion ddatblygu gweithgareddau gwella parhaus i wella deilliannau dysgwyr. Bydd yr awdurdod lleol (mewn partneriaeth â CCD) yn parhau i gynorthwyo ysgolion, yn ôl yr angen, i ddatblygu gweithgareddau gwella a gwerthuso.

### **A fydd trefniadau rheoli perfformiad yn parhau?**

Byddant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r canllawiau a ganlyn ar drefniadau rheoli perfformiad:

[llyw.cymru/staff-ysgolion-au-cyflogaeth-coronafeirws?\\_ga=2.98137631.1631047258.1597562919-1164859446.1531772974#section-44297](http://llyw.cymru/staff-ysgolion-au-cyflogaeth-coronafeirws?_ga=2.98137631.1631047258.1597562919-1164859446.1531772974#section-44297)

Dylai ysgolion ymgynghori â'u cydweithwyr yn yr adran adnoddau dynol i gael rhagor o wybodaeth am y sefyllfa'n lleol.

### **A fydd sesiynau dysgu proffesiynol ar gael i ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen?**

Byddant.

Bydd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn parhau i gynnig pecyn dysgu proffesiynol sylweddol o fis Medi 2020 ymlaen. Bydd yn seiliedig ar anghenion rhanbarthol a lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae manylion y digwyddiadau i'w gweld ar y canlynol:

- Twitter a Facebook
- Gwefan y Consortiwm
- Bwletin newyddion y Consortiwm
- Cronfa

### **Gwasanaethau Cymorth Cynnar**

#### **A fydd rhieni'n cael hysbysiadau cosb benodedig os na fydd eu plant yn mynd i'r ysgol?**

Bydd pob dysgwr yn dychwelyd i'w ysgol neu leoliad ar ddechrau tymor yr hydref oni bai bod rheswm meddygol/iechyd iddynt beidio â gwneud hynny. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai'n anodd i awdurdod lleol/ysgol gyfiawnhau rhoi hysbysiad cosb benodedig i rieni neu ddwyn achos yn herbyn oherwydd absenoldeb plentyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa dros hanner tymor.

Os na fydd dysgwyr yn gallu mynd i safle'r ysgol mae'n hanfodol bod yr ysgol yn parhau i gysylltu â nhw o bell. Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd roi gwybod i'r ysgol os na fydd eu plentyn yn gallu bod yn bresennol, gan ddweud pam, er mwyn i'r ysgol fedru cofnodi presenoldeb yn gywir. Bydd hyn yn helpu ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i gynllunio i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol ac i ddeall y problemau a all eu hatal rhag gwneud hynny ac yna ystyried unrhyw gymorth ychwanegol y gellid ei gynnig iddynt. Bydd yn hanfodol i'r holl ddysgwyr ymgysylltu â'r ysgol ac ymdrin ar unwaith ag unrhyw bryderon am yr ymgysylltiad hwn, neu am les y dysgwr. Gall y Gwasanaeth Lles Addysg, a'r gwasanaethau Cymorth Cynnar, helpu yn y sefyllfaoedd hyn hefyd.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr, teuluoedd a staff yn dilyn cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r feirws a ni ddylai dysgwyr na staff ddod i'r ysgol/lleoliad ar unrhyw gyfrif os byddant :

- Yn teimlo'n wael, ac os oes ganddynt unrhyw un o'r tri symptom sy'n gysylltiedig â COVID-19 (os bydd ganddynt beswch cyson newydd, tymheredd uchel neu'n colli'r gallu i flasau neu arogl) neu os ydynt wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 7 diwrnod diwethaf; neu os byddant
- Yn byw ar aelwyd neu'n rhan o aelwyd estynedig sy'n cynnwys rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

### **Fel rhiant, rwy'n poeni'n arw am fy mhentyn yn mynd yn ôl i'r ysgol ac yn dal y feirws. Beth ddylwn i ei wneud? A fydda' i'n mynd i helynt?**

Os yw rhieni/gofalwyr yn poeni am eu plant yn mynd yn ôl i'r ysgol, rydym yn eu cynghori i drafod y sefyllfa â'r ysgol/lleoliad.

Dylai ysgolion a lleoliadau esbonio wrth y rhieni/gofalwyr fod yn rhaid i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol fod yn yr ysgol oni bai bod rheswm statudol iddynt beidio â gwneud hynny (ee os cawsant ganiatâd i fod yn absennol, yn absennol oherwydd salwch neu oherwydd rhesymau crefyddol penodol).

### **Pa gymorth ychwanegol fydd ar gael i blant a theuluoedd y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt?**

Bydd gwasanaethau Cymorth Cynnar a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod ar gael i blant a theuluoedd y mae angen eu cynorthwyo neu eu diogelu.

Gall gwasanaethau Cymorth Cynnar helpu teuluoedd gyda materion rhianta, lles, cwnsela, materion ariannol a chyflogaeth/hyfforddiant. Maent yn gweithio'n agos gydag ysgolion a gwasanaethau eraill gan gynnwys rhieni/gofalwyr, a gallant gyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau eraill drwy [earlyhelp@bridgend.gov.uk](mailto:earlyhelp@bridgend.gov.uk)

Os oes pryderon ym maes diogelu, rhaid cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy [mashcentra@bridgend.gov.uk](mailto:mashcentra@bridgend.gov.uk)

### **A fydd yn rhaid i ddysgwyr wisgo gwisg ysgol ym mis Medi?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei chanllawiau ers 11 Awst 2020, ac maent i'w gweld yma:



<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19?>

Mae'n dweud yn y canllawiau hyn mai corff Llywodraeth ysgol ddylai benderfynu ynghylch gwisg ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y gall gwisg ysgol fod yn gyfraniad gwerthfawr at ethos ysgol ac y gall greu naws briodol.

Fodd bynnag, os bydd corff Llywodraethu'n penderfynu llacio'r polisi gwisg ysgol, bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw.

### **Sut 'alla i gael grant gwisg ysgol i fy mhlentyn?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i deuluoedd ar incwm isel. Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn yr adran budd-daliadau a chymorth grantiau i ddisgyblion.

Dylai rhieni/gofalwyr gysylltu ag ysgolion unigol i gael gwybod sut a phryd y caiff y grant ei ddosbarthu.

### **lechyd a diogelwch**

#### **A fydd yr awdurdod lleol yn paratoi fframwaith asesu risg y Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer ysgolion?**

Mae'r awdurdod lleol wrthi'n adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion sy'n agor yn nhymor yr hydref. Mae fframwaith asesu risg diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae hwn yn adeiladu ar y canllawiau sydd ar gael, yr adborth a gafwyd gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill ar asesiadau blaenorol, a'r cyngor a'r cymorth y mae ysgolion wedi gwneud cais amdano hyd yma.

#### **Pa gymorth fydd ar gael i bennaethiaid ac ysgolion gwblhau'r broses asesu risg?**

Fel y digwyddodd cyn i'r ysgolion agor yn nhymor yr haf, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i gwblhau asesiadau risg ac i roi'r trefniadau priodol ar waith ar sail canllawiau cenedlaethol cyn i'r ysgolion ailagor ym mis Medi 2020. Bydd yr asesiadau'n nodi'r mesurau y bydd ysgolion yn eu cyflwyno i reoli risg COVID-19 yn amgylchedd yr ysgol.

#### **A yw ysgolion wedi cael cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer tasgau yn yr ysgol, fel gofal personol neu gymorth cyntaf?**

Mae'r ysgolion a'r lleoliadau i gyd wedi cael cyflenwadau PPE cysylltiedig â COVID-19 ac wedi cael cyfarwyddyd ar eu defnyddio'n briodol (ee gweithio'n agos iawn at

unigolion i roi gofal personol, cymorth cyntaf neu, efallai, i helpu unigolion sy'n dangos symptomau ac sy'n aros i gael eu casglu i fynd adref).

### **A fydd gan ysgolion drefniadau ar gyfer trin unrhyw un sy'n cael ei daro'n wael yn yr ysgol ac sy'n dangos symptomau COVID-19?**

Bydd yr holl rieni'n cael llythyr yn dweud wrthynt am beidio ag anfon eu plentyn i'r ysgol os oes ganddynt symptomau COVID-19 ac mae trefniadau tebyg ar waith ar gyfer staff. Bydd ysgolion yn cael canllawiau ar ymdrin ag unrhyw un sy'n cael ei daro'n wael yn yr ysgol ac sy'n dangos symptomau COVID-19, gan gynnwys cyfarwyddyd i'w cadw ar wahân i bawb arall, i'w goruchwyllo a chanllawiau ar y gofynion glanhau ychwanegol.

Bydd canllawiau'r gwasanaeth 'Profi, Olrhain a Diogelu' yn cael eu dilyn ym mhob achos cysylltiedig â'r ysgol neu'r lleoliad.

### **A oes problem yn ymwneud â rhai systemau gwresogi arbennig a allai godi ym mis Tachwedd?**

Bydd y Landlord Corfforaethol yn nodi unrhyw broblemau'n ymwneud â'r system gwresogi/awyru a bydd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ymdrin â'r problemau o fewn yr amserlenni priodol.

### **Pryd fydd y Landord Corfforaethol yn asesu'r systemau awyru?**

Gofynnwyd i Lorne Stewart; ein Peirianwyr Mecanyddol cadw, asesu'r systemau awyru yn ein hysgolion gan ganolbwyntio'n benodol ar unrhyw wrthdaro posibl rhwng y systemau gwresogi/awyru sydd ar waith a'r canllawiau Covid a gafwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch ailgylchredeg yr aer. Bydd yr arolygon yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion sy'n defnyddio gwresogyddion darfudol ac yn cynnwys dadansoddiad o'r awyr iach sydd ar gael yn y rhannau hynny o'r adeilad. Rwy'n credu bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau a threfnwyd cyfarfod ar 28/08/20 i adolygu'r canfyddiadau. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau yn y cyswllt hwn ar 29/08/20.

### **A ydym ni wedi ystyried gofyn i staff ysgolion cynradd wisgo feisor?**

Mae'n debyg mai siawns fach iawn sydd i'r feirws gael ei drosglwyddo mewn ysgolion (yn enwedig ysgolion cynradd). Gan hynny, nid oes angen gwisgo gorchudd wyneb / PPE yn ystod gweithgareddau arferol yr ysgol. Dim ond wrth weithio'n agos iawn gyda disgybl sydd wedi dal COVID-19 neu sy'n dangos symptomau o'r feirws AC sy'n debygol o gynhyrchu secretiadau aerosol ee poeri, pesychu, y mae angen

gwisgo gorchudd wyneb. Sylwch fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn awr yn cynghori staff i wisgo amddiffynnydd wyneb wrth roi gofal personol.

### **Os gall athrawon llanw ddod i'r ysgol, pam na chaiff staff cymorth wneud hynny hefyd?**

Pan oedd rhif R COVID-19 yn llawer uwch, roedd y penderfyniad i wahardd staff / ymwelwyr diangen yn cael ei ystyried yn fesur 'rhesymol ymarferol'. Gall ymwelwyr yn awr ddod i safle'r ysgol os bydd hynny'n cyd-fynd â'r asesiadau risg.

### **Beth am blant sy'n dechrau yn yr ysgol ond nad ydynt wedi dysgu mynd i'r toiled yn iawn eto?**

Mae'n debyg nad yw'r feirws yn cael ei drosglwyddo drwy ysgarthion (annhebygol iawn) ond rhaid dilyn y canllawiau hylendid arferol (cyn COVID).

### **Beth ddylem ni ei wneud os bydd plant am wisgo masg yn yr ysgol?**

Yn unol â'r asesiad risg, caiff plant wisgo gorchudd wyneb ar yr amod eu bod nhw'n gallu eu rhoi a'u tynnu nhw, eu cadw nhw (os oes modd eu haildefnyddio) neu eu rhoi nhw yn y bin.

### **A ddylem ni ganiatáu i staff a disgyblion chweched dosbarth adael y safle amser cinio?**

Os byddant yn cadw at y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol pan fyddant oddi ar y safle a'u bod yn cadw at safonau hylendid personol llym ar ôl dychwelyd i'r ysgol, nid oes unrhyw reswm dros eu gwahardd rhag gadael y safle.

### **A ddylai'r disgyblion eistedd mewn rhesi? Beth yw'r cyngor o ran pa mor ifanc all y plant fod yn y cyswllt hwn? A ddylem ni ofyn i blant y cyfnod sylfaen eistedd mewn rhesi?**

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn dweud y 'dylai ysgolion wneud mân addasiadau i'r ystafell ddosbarth i gefnogi cadw pellter pan fydd hynny'n bosibl. Dylai hynny gynnwys gosod seddi'r dysgwyr ochr yn ochr ac yn wynebu ymlaen, yn hytrach nag wyneb yn wyneb neu'n wynebu'r ochr, a gallai olygu symud celfi diangen o ystafelloedd dosbarth i wneud mwy o le'.

Er nad yw'r canllawiau'n argymhell unrhyw oedran penodol yn y cyswllt hwn, maent yn cydnabod y bydd hyn yn anodd weithiau, yn enwedig yn achos plant ifanc a

dysgwyr ag anghenion ychwanegol, a'r cyngor yw: 'Pan na fydd staff neu ddysgwyr yn gallu cadw pellter, yn enwedig gyda dysgwyr iau mewn ysgolion cynradd, mae modd lleihau'r risg hefyd drwy gadw dysgwyr yn y grwpiau llai, maint dosbarth sy'n cael eu disgrifio uchod'.

Dylai'r pwyslais fod ar ffurfio grwpiau o ddysgwyr a gofalu bod y grwpiau hyn yn cael eu cadw ar wahân. Yn achos dysgwyr hŷn, bydd y pwyslais ar gadw pellter cymdeithasol a ffisegol i leihau'r cysylltiad rhwng plant ac oedolion dan do, ond gan sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael gofal da.

Disgwylir i ymarferwyr addysgol 'ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol a gwneud y peth iawn dros blant, rhieni a staff.'

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael drwy ddilyn y dolenni isod:

- <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/canllawiau-gweithredol-gyfer-ysgolion-lleoliadau-dymor-hydref-fersiwn-2.pdf> a
- <https://gov.wales/back-school-plans-september-coronavirus#section-48384>

## **Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a derbyn disgyblion**

### **A fydd cludiant ysgol ar gael o 1 Medi 2020 ymlaen?**

Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu trefnu cludiant ysgol fel arfer, cyhyd ag y bo modd, o ddechrau tymor yr hydref 2020. Fodd bynnag, rydym yn cynghori rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain i gludo'u plant i'r ysgol ar hyn o bryd os yw'n bosibl.

### **A fydd cludiant ysgol ar gael i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys?**

Na fydd.

Ni fydd y meini prawf cymhwysedd yn newid oherwydd o sefyllfa bresennol.

### **Pa drefniadau fydd ar waith i sicrhau y bydd modd cadw pellter cymdeithasol ar fysiau ysgol?**

Mae'n annhebygol y bydd y gofynion i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn gymwys ar gludiant ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyngor ychwanegol yn y cyswllt hwn.

### **Mae fy mhlentyn yn cael tacsî i'r ysgol fel arfer. A fydd y trefniant hwn yn parhau?**

Am y tro, efallai bydd rhai'n cael teithio mewn cerbyd gwahanol ee bws mini i wneud yn siŵr bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd tacsis yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai contractau.

### **A ddylai fy mhlentyn wisgo masg ar gludiant ysgol?**

Rydym yn argymhell bod disgyblion oedran uwchradd (11 oed a hŷn) yn gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol, a bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r rhain. Bydd ysgolion unigol yn cadw cyflenwad o fasgiau ac yn eu rhoi i'r disgyblion. Nid ydym yn argymhell bod disgyblion yn gwisgo gorchudd wyneb os oes ganddynt gyflwr meddygol neu anghenion dysgu ychwanegol ond gallant wneud hynny os dymunant.

### **A oes raid i rieni ddanfôn eu plant i'r safle bws?**

Os yw disgyblion ysgolion cynradd yn gymwys i gael cludiant ysgol, mae angen i oedolyn cyfrifol (o'r un aelwyd) eu danfon i'r safle bws agosaf .

Nid oes angen i oedolyn cyfrifol ddanfôn disgyblion ysgolion uwchradd i'r safle bws.

Dylid cadw at y canllawiau cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol bob amser.

### **A fydd angen i rieni/gofalwyr fod ar gael i gasglu'r plant o'r safle bws ar ddiwedd y diwrnod ysgol?**

Rhaid i oedolyn cyfrifol gasglu disgyblion ysgolion cynradd o'r safle bws ar ddiwedd y diwrnod ysgol oni bai eu bod wedi trefnu ymlaen llaw i'r awdurdod lleol eu heithrio rhag gwneud hynny.

### **Fel arfer, bydd hebryngwyr yn aml yn teithio ar gerbydau cludiant ysgol. A fydd hyn yn parhau?**

Mae'n bosibl na fydd yn bosibl parhau â'r trefniadau blaenorol i hebryngwr deithio gyda'r plant. Nid oes gofyniad statudol i ddarparu hebryngwyr, er y bydd yr awdurdod lleol yn asesu anghenion dysgwyr ac yn penderfynu a fyddai'n briodol gwneud hynny.

### **A yw plant cymwys yn sicr o gael cludiant ysgol o fis Medi 2020 ymlaen?**

Dysgwyr agored i niwed fydd yn parhau i gael blaenoriaeth. Nid yw'r awdurdod lleol yn rhagweld unrhyw broblemau o ran darparu cludiant ysgol i bob dysgwr cymwys o fis Medi ymlaen. Fodd bynnag, os na fydd digon o gerbydau, neu os na fyddant yn ddigon mawr, mae'n bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn gallu cludo'r holl ddysgwyr cymwys ar ddechrau tymor yr hydref. Bydd yr awdurdod lleol yn gwneud pob ymdrech

i wneud hynny cyn gynted â phosibl, a bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl.

### **A fydd yn rhaid i ddisgyblion ysgolion uwchradd ddangos eu pasys ar y bws ysgol?**

Na fydd.

Mae'r polisi 'dim tocyn, dim teithio' wedi'i atal ar gyfer tymor yr hydref 2020. Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r sefyllfa ddechrau tymor y gwanwyn, ym mis Ionawr 2021. Dim ond disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant ysgol sydd yn cael gwneud hynny fodd bynnag.

### **Beth fydd yn digwydd os bydd disgyblion cynradd ac uwchradd yn teithio gyda'i gilydd? Ai dim ond y disgyblion uwchradd fydd yn gorfod gwisgo gorchudd wyneb?**

Rydym yn argymhell bod disgyblion ysgolion uwchradd yn gwisgo gorchudd wyneb, ond ni fydd yn orfodol iddynt wneud hynny.

### **Ydych chi am i ysgolion ddyrannu seddi ynteu ai'r gweithredwyr fydd yn gwneud hynny?**

Bydd angen i ysgolion wneud yn siŵr bod disgyblion yn yr un grwpiau dysgu / swigod dosbarth yn eistedd gyda'i gilydd pan fyddant yn cael eu cludo ar yr un cerbyd. Felly os bydd tri o blant yn yr un swigen dosbarth yn dal yr un bws ee B43, byddem yn disgwyl iddynt eistedd gyda'i gilydd ar y bws. Dylai'r hynaf eistedd yn y cefn, a'r ieuengaf yn y tu blaen. Y disgyblion cyntaf i fynd ar y bws, ddylai ddod oddi arno ddiwethaf.

### **A oes penderfyniad pendant wedi'i wneud ynglŷn â gofyn i'r disgyblion hynaf eistedd yn y cefn oherwydd roeddem ni wedi bwriadu trefnu i'r disgyblion a fydd yn dod oddi ar y bws gyntaf eistedd yn y blaen, ac i'r disgyblion a fydd yn teithio ymhellach eistedd yn y cefn?**

Y disgyblion sy'n mynd ar y bws gyntaf ddylai fynd oddi arno ddiwethaf, ond dylid defnyddio strwythur eistedd sy'n rhoi'r disgyblion hŷn yn y cefn a'r disgyblion iau yn nes at y tu blaen.

### **Sut y caiff masgiau eu rhannu ar gyfer y siwrnai gyntaf un?**

Gan mai cynghori disgyblion i wisgo masg rydym ni, ac nad yw hynny'n orfodol, does dim disgwyl iddynt wisgo masg ar y diwrnod cyntaf oni bai bod eu rhieni/gofalwyr yn

rhoi un iddynt. Bydd gan ysgolion gyflenwad o fasgiau i'w rhoi i'r dysgwyr ar eu diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol a byddant yn rhoi gwybod i'r rhieni/gofalwyr am y trefniadau fydd ar waith i'r disgyblion eu casglu.

### **Pwy fydd yn dyrannu seddi ar gyfer y siwrnai gyntaf?**

Rydym yn disgwyl rhywfaint o hyblygrwydd ar y siwrnai gyntaf i'r ysgol, a bydd y gyrrwyr/hebryngwyr yn dangos i'r disgyblion lle y dylent eistedd. Disgwylir i'r disgyblion hŷn eistedd yn y cefn a'r disgyblion iau eistedd yn nes at y tu blaen. Ar y siwrnai adref, bydd yr ysgolion yn dangos i'r disgyblion lle y dylent eistedd. Y disgyblion a fydd yn mynd ar y bus gyntaf ddylai fynd oddi arno ddiwethaf.

### **Pryd fydd y diwrnod ysgol yn dechrau ac yn gorffen?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei chanllawiau ar 11 Awst 2020, ac maent i'w gweld yma:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ysgolion ystyried trefnu i ddysgwyr ddechrau'r ysgol ar amseroedd gwahanol neu i addasu amseroedd dechrau a gorffen i gadw grwpiau o ddysgwyr ar wahân wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol a chaniatáu i ragor deithio ar adegau llai prysur.

Bydd pob ysgol unigol yn cael penderfynu ar eu hamseroedd dechrau a gorffen.

### **Sut ddylwn i wneud cais am le mewn ysgol?**

Mae gwybodaeth am dderbyn disgyblion, ac amserlen sy'n cynnwys y cylch ymgeisio nesaf, i'w gweld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn yr adran 'derbyniadau i ysgolion'.

Cysylltwch â Chymorth i Ddysgwyr yn [pupilservices@bridgend.gov.uk](mailto:pupilservices@bridgend.gov.uk) os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

**Mae'n bosibl y bydd staff ysgol sydd â phlant sy'n dechrau yn y dosbarth meithrin yn wynebu problemau tan fis Hydref, gan ddibynnu ar y dyddiad y byddant yn dechrau. Sut y caiff hyn ei reoli?**

Disgwylir i staff dalu am ofal plant

## **Prydau ysgol**

### **Fel arfer, bydd fy mhlentyn yn mynd i'r clwb brecwast. A fydd brecwast ar gael pan fydd yn mynd yn ôl i'r ysgol fis Medi?**

Mae'n annhebygol y bydd clybiau brecwast yn aildddechrau ar 1 Medi.

Fodd bynnag, bydd pob ysgol yn asesu ei threfniadau presennol o ran eu clybiau brecwast ac yn ceisio aildddechrau'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref, ond dim ond os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny. Bydd rhagor o wybodaeth am ailagor clybiau brecwast ar gael maes o law.

### **Mae gan fy mhlentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim (eFSM). Gan na fydd yn debygol o fynd i'r ysgol yn llawn amser tan 14 Medi, a fydd yn cael parcel bwyd bob wythnos ac yn cael cinio ysgol am ddim tan hynny.**

Bydd prydau ysgol am ddim ar gael ar y diwrnodau y bydd eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ystyried parhau i ddsbarthu'r parceli bwyd bob wythnos i ddisgyblion eFSM tan 4 Medi.

### **A oes gan fy mhlentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim?**

Anfonwch e-bost at [FSM@bridgend.gov.uk](mailto:FSM@bridgend.gov.uk) neu ffoniwch (01656) 643396 i gael gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd.

### **A fydd prydau ysgol ar gael i'w prynu pan fydd fy mhlentyn yn mynd yn ôl i'r ysgol fis Medi?**

Byddant.

Mae'n bosibl, fodd bynnag, na fydd ysgolion unigol yn gallu cynnig cymaint o ddewis ar y fwydlen am gyfnod.

### **A all fy mhlentyn ddod â phe cyn bwyd i'r ysgol ym mis Medi?**

Penderfyniad i bob ysgol unigol fydd hyn felly dylech gysylltu â'ch ysgol yn uniongyrchol.

### **Mae fy mhlentyn ar ddeiet meddygol arbenigol fel arfer. A fydd hyn ar gael ar y diwrnodau y bydd fy mhlentyn yn dod i'r ysgol ym mis Medi?**



Bydd deiet meddygol arbenigol ar gael i'ch plentyn, ond bydd disgwyl i'r rhieni ddweud wrth yr ysgol os yw ei ddeiet arbenigol blaenorol wedi newid er mwyn medru rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Arlwygo cyn i'ch plentyn fynd yn ôl i'r ysgol.

### **A fydd plant oedran babanod yn parhau i gael llaeth am ddim?**

Byddant. Bydd ysgolion unigol yn cysylltu â'r darparwr llaeth i aildechrau'r ddarpariaeth llaeth am ddim drwy gydol tymor yr hydref.

### **Ble fydd fy mhlentyn yn bwyta cinio?**

Bydd ysgolion unigol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac asesiadau risg lleol, ac yn penderfynu a fyddai'n well i'r disgyblion fwyta cinio yn y ffreutur ynteu yn eu hystafell ddosbarth/wrth eu desgiau.

### **A fydd y system arlwygo heb arian ar waith?**

Bydd.

Bydd angen i rieni/gofalwyr, fodd bynnag, ofalu bod digon yn weddill yng nghyfrif y plentyn. Os nad yw rhieni wedi cael e-bost yn ddiweddar yn nodi faint sydd yn y cyfrif, dylent gysylltu â gweinyddwr yr ysgol i holi.

Mae'n annhebygol y bydd modd defnyddio'r peiriannau pwrpasol yn yr ysgolion uwchradd ar y dechrau, felly bydd angen i rieni/gofalwyr roi arian yn eu cyfrif prydau ysgol drwy [dalu ar-lein <https://ip.e-paycapita.com/AIP/itemSelectionPage.do?link=showItemSelectionPage&siteId=399&languageCode=EN&source=AIP>](https://ip.e-paycapita.com/AIP/itemSelectionPage.do?link=showItemSelectionPage&siteId=399&languageCode=EN&source=AIP) ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

### **Cinio ysgol - bagiau bwyd ynteu platiau a chyllyll a ffyrc?**

Bydd y Gwasanaeth Arlwygo'n gweithio gydag ysgolion unigol i gytuno ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl iddynt wneud bob ymdrech i sicrhau bod dysgwyr ym mhob ysgol yn cael cinio poeth.

### **Y Gwasanaeth Cynhwysiant**

### **Faint o bobl all fod yn bresennol mewn cyfarfod cynllunio?**

Oherwydd y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, dim ond y disgybl, ei rieni/gofalwyr ac aelod o staff yr ysgol fydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod cynllunio. Bydd yr holl weithwyr proffesiynol eraill yn cyfrannu drwy'r e-bost.

### **Sut y gall staff arbenigol roi gwersi teipio a Braille os bydd y cyfyngiadau ar waith?**

Rhaid cadw pellter cymdeithasol os oes modd. Bydd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael mewn amgylchiadau eithriadol os na fydd modd cadw at y canllawiau. Rhaid trafod y sefyllfa ymlaen llaw â'r rheolwr llinell a chwblhau asesiad risg.

Bydd angen gwybod faint o ddisgyblion y bydd angen y cymorth hwn arnynt a chynllunio'r sesiynau ymlaen llaw.

### **Sut bydd modd cyfathrebu'n effeithiol â disgyblion sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain?**

Bydd sesiynau arwyddo cynnil yn cael eu cyflwyno gan ofalu nad yw'n tynnu gormod o sylw a bydd angen cadw pellter cymdeithasol, cyhyd ag y bod modd. Bydd angen trafod â'r athrawon dosbarth i gytuno ar y lle gorau i'r disgyblion a'r staff arbenigol eistedd.

### **A fydd disgyblion o'r ganolfan adnoddau dysgu cynradd i'r rhai â nam ar eu clyw yn integreiddio yn nosbarthiadau'r brif ffrwd?**

Bydd anghenion unigol y disgyblion yn cael eu hystyried. Caiff cynigion ar gyfer addysgu cynnil ac integreiddio eu trafod hefyd. Bydd anghenion y disgybl yn cael eu hystyried yn llawn a bydd staff arbenigol yn gallu cynnig cymorth os cânt eu hintegreiddio.

### **A fydd disgyblion cyn oed ysgol yn cael therapi iaith a lleferydd ym mis Medi?**

Rydym yn aros am ganllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau a sgysiau dros y ffôn, ac yn cyfeirio plant at gymorth penodol.

### **A fydd y cylch chwarae synhwyraidd yn parhau?**

Bydd adolygiad ddiwedd mis Medi. Bydd trafodaethau unigol yn cael eu cynnal â'r teuluoedd sy'n defnyddio'r cylch chwarae synhwyraidd.

Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio'r gwahanol bosibiliadau gan gynnwys 'sesiynau galw heibio' a defnyddio Microsoft Teams i gynnal sesiynau un i un o bell gyda theuluoedd os bydd angen.

## **A fydd y Fforwm Niwroddatblygiadol a'r sesiynau arsylwi'n ailddechrau ym mis Medi?**

Bydd y Fforwm yn ailddechrau ar-lein drwy gyfrwng Microsoft Teams. Bydd y dyddiadau perthnasol yn cael eu cynnwys ym mwletin wythnosol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd pan fydd tymor yr hydref yn dechrau.

I ofyn am sesiwn arsylwi gan y Tîm Niwroddatblygiadol, rhaid llenwi ffurflen gais a chael caniatâd y rhieni a'i hanfon at y tîm Cyfathrebu a Chysylltiadau. (CART).

## **A fydd ceisiadau am ddarpariaeth arbenigol mewn perthynas â dosbarthiadau arsylwi, canolfannau adnoddau dysgu i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol a chanolfannau adnoddau cyfathrebu ac awtistiaeth (CARE) yn cael eu cyflwyno yn nhymor yr hydref, yn ôl yr arfer?**

Bydd ffurflenni cais ar gyfer darpariaeth arbenigol yn cael eu hanfon ym mwletin wythnosol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd ar ddechrau tymor yr hydref. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 31 Hydref 2020. Bydd rhagor o fanylion am wneud cais electronig a drwy'r post ar gael ym mis Medi.

## **A fydd hyfforddiant Team Teach, a gyflwynir gan hyfforddwyr yr awdurdod lleol, yn ailddechrau yn nhymor yr hydref?**

Mae Team Teach yn gweithio i gyflwyno cwrs cyfunol, chwe awr. Bydd hyfforddwyr yr awdurdod lleol yn cael hyfforddiant ac yna'n diweddarau'r ysgolion ym mis Medi 2020.

## **A fydd adolygiadau ategol a'r paneli sy'n trafod ceisiadau newydd am gymorth ategol yn cael eu cynnal yn nhymor yr hydref?**

Byddant.

Bydd adolygiad llawn o'r holl gymorth ategol ar ddiwedd tymor yr hydref 2020. Mae'r ceisiadau'n cael eu hystyried a chaiff yr ysgolion wybod y canlyniad ym mis Medi 2020. Bydd dyddiadau holl gyfarfodydd y panel yn 2020-21 yn cael eu cynnwys ym mwletin wythnosol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

## **A fydd staff CART yn bresennol mewn cyfarfodydd yn yr ysgolion ym mis Medi?**

Pan fo modd, bydd cyfarfodydd rhithwir yn cael eu cynnal a bydd aelodau o'r tîm yn ymuno drwy wahoddiad. Fodd bynnag, os yw'n hanfodol cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, er enghraifft, i ymgynghori â rhieni, bydd aelodau o'r tîm yn bresennol. Bydd cyfyngiadau ar nifer yr ysgolion y bydd staff yn gallu ymweld â nhw mewn diwrnod, fodd bynnag.

## **A fydd Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig (SNSA) yn gallu symud rhwng dwy ysgol yn ystod unrhyw ddiwrnod penodol?**

Byddant.

Bydd cynorthwywyr SNSA yn gallu cwblhau eu horiau contract mewn dwy ysgol (ond dim mwy na dwy) mewn un diwrnod.

## **A fydd modd cynnal adolygiadau statudol ac adolygiadau ysgol yn ystod tymor yr hydref?**

Bydd.

Mae adolygiadau wedi'u cynnal yn llwyddiannus o bell yn ystod y cyfnod clo. Bydd y rhain yn parhau i gael eu cynnal o bell yn ystod tymor yr hydref os bydd modd, a hynny er mwyn lleihau'r perygl o drosglwyddo'r feirws a rhag i staff o'r tu allan i'r ysgol ddod i gysylltiad â grwpiau cyswllt yn ddiangen.

## **A fydd unrhyw newidiadau yn y broses asesu statudol a'r amserlen ar gyfer datganiadau?**

Rydym yn dal yn aros am ragor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ond, ar hyn o bryd, nid yw'r broses na'r amserlen wedi newid. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fu modd cynnal asesiadau uniongyrchol, ac efallai y bydd angen casglu rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach, os bydd hynny'n briodol.

## **Bydd llawer o blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw'n cael trafferth cyfathrebu, gwrando a deall os byddant yn gwisgo masg. Beth ddylai ysgolion ei wneud yn y cyswllt hwn?**

Ar 26 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar wisgo gorchudd wyneb. Maent i'w gweld yma:

<https://gov.wales/technical-advisory-group-face-coverings-children-and-young-people-education-settings>

Mae'r canllawiau'n dweud bod angen ystyried rhai risgiau'n gysylltiedig â gwisgo gorchudd wyneb, gan gynnwys y posibilrwydd i'r feirws ymledu wrth i ddysgwyr roi'r masg am eu hwyneb a'i dynnu, yr angen i gyflenwi masgiau, eu gwisgo'n ddiogel, eu cadw a'u gwaredu, a'r risg i'r dysgwyr sy'n methu gwisgo masg am resymau meddygol gael eu herlid neu eu bwlio, yn enwedig dysgwyr sydd â chyflwr niwrolegol, problemau i'r rhai sy'n darllen gwefusau, ac effaith niweidiol masgiau ar ddysgu, ymgysylltu'n emosiynol a chyfathrebu.

Mae cyngor rhif 5 y Prif Swyddog Meddygol yn argymhell y dylid defnyddio gorchudd wyneb ar sail asesiad risg mewn amrywiaeth o leoliadau lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol. Argymhellir bod pob lleoliad addysgol uwchradd yn cynnal asesiad risg.

Argymhellir bod ysgolion yn asesu risg mewn unrhyw leoliad penodol lle nad oes modd rhoi mesurau eraill ar waith, fel cadw pellter digonol. Dylai'r cynlluniau ystyried y cydbwysedd cyffredinol rhwng y risgiau a'r manteision i bawb yn y lleoliad gan gynnwys unigolion ag anghenion ychwanegol neu anabledau.

Y camau pwysicaf i'w cymryd o hyd yw golchi dwylo a chadw arwynebau'n lân, cadw grwpiau o fyfyrwyr (a staff) ar wahân, osgoi sgwrsio'n agos wyneb yn wyneb, cadw pellter o 2m rhwng oedolion bob amser a 2m rhwng oedolion a phlant dros 11 ar safle'r ysgol.